OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 3112 (Cy.232) (C.134)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 11)(Cymru) 2005

Wedi'i wneud - - 8 Tachwedd 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 148(6) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 11)(Cymru) 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Rhagfyr 2005

2. 30 Rhagfyr 2005 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym y darpariaethau canlynol o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002—

(a) adran 4 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym;

(b) adrannau 6 i 8;

(c) adran 12 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(ch) adrannau 13 i 15;

(d) adrannau 56 i 58 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym;

(dd) adrannau 60 i 62 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym;

(e) paragraffau 13, 65 ac 111 i 113 o Atodlen 3 ac adran 139(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol).

(**1**) 2002 p.38.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
8 Tachwedd 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Y Gorchymyn hwn yw'r unfed ar ddeg Gorchymyn Cychwyn sydd wedi'i wneud o dan y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("y Ddeddf") ac mae'n gymwys i Gymru.

Mae'r Gorchymyn yn dod ag amrywiol adrannau o'r Ddeddf i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf wedi eu dwyn i rym gan Orchmynion Cychwyn a gafodd eu gwneud cyn dyddiad y Gorchymyn hwn—

Y ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 2(1) i (5), (7) ac (8)	7 Rhagfyr 2004	2004/3203 (C.139)
Adran 2(6) o ran Lloegr	7 Rhagfyr 2004	2004/3203 (C.139)
Adran 2(6), (7) ac (8) yn rhannol, o ran Lloegr	6 Hydref 2003	2003/366 (C.24)
Adran 2(6) o ran Cymru	7 Chwefror 2004	2004/252 (Cy.27) (C.9)
Adran 2(7) ac (8) yn rhannol, o ran Cymru	28 Tachwedd 2003	2003/3079 (C.117)
Adran 3(3) a (4) yn rhannol, o ran Lloegr	7 Rhagfyr 2004	2004/3203 (C.139)
Adran 3(3) a (4) o ran Cymru	6 Mehefin 2005	2005/1206 (Cy.78) (C.54)
Adran 4(1)(b) a (5) yn rhannol, o ran Cymru	7 Chwefror 2004	2004/252 (Cy.27) (C.9)
Adran 4(1)(b) a (5) yn rhannol, o ran Lloegr	7 Rhagfyr 2004	2004/3203 (C.139)
Adran 4(6) a (7) o ran Cymru	7 Chwefror 2004	2004/252 (Cy.27) (C.9)
Adran 4(6) a (7) yn rhannol, o ran Lloegr	6 Hydref 2003	2003/366 (C.24)
Adran 4(6) a (7) o ran Lloegr	7 Rhagfyr 2004	2004/3203 (C.139)
Adran 8 yn rhannol, o ran Lloegr	7 Rhagfyr 2004	2004/3203 (C.139)
Adran 9 o ran Cymru	7 Chwefror 2004	2004/252 (Cy.27) (C.9)
Adran 9 o ran Lloegr	7 Rhagfyr 2004	2004/3203 (C.139)
Adran 10 o ran Cymru	7 Chwefror 2004	2004/252 (Cy.27) (C.9)
Adran 10 o ran Lloegr	7 Rhagfyr 2004	2004/3203 (C.139)